Ysgol Cybi
Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1NS www.ysgolcybi.com 01407 883150 Pennaeth / Headteacher: Mr O L Roberts

Adroddiad Llywodraethwyr Blynyddol 2021/22

1) **Y Corff Llywodraethu:**

Enw	Categori	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen
Colin Bell	Awdurdod Lleol (cyfetholedig AR, DTh)	01.01.22	31.12.25
Arwel Roberts*	Awdurdod Lleol	01.01.18	31.12.21
Dafydd Thomas	Awdurdod Lleol	01.05.22	01.05.26
Susan Williams	Rhieni	01.01.22	31.12.25
Gareth Lewis*	Rhieni	01.01.18	31.12.21
Claire Douch	Rhieni	01.12.19	30.11.23
Lynne Roberts	Rhieni	12.11.20	11.11.24
Darren Bruce	Rhieni	06.01.22	05.01.26
Alan Williams	Awdurdod Bach	16.10.20	15.10.24
Carys Griffiths	Awdurdod Bach	01.01.22	31.12.25
Neil Ridings*	Sylfaen	01.01.22	31.12.25
Rob Wardle	Sylfaen	01.01.22	31.12.25
Ailia Lewis	Sylfaen	01.01.22	31.12.25
Holly Edwards	Staff Addysgu	01.01.22	31.12.25
Karen Davies	Staff Cefnogol	01.01.22	31.12.25
Owain Roberts	Pennaeth (Ex officio)	01.09.19	
Carol Kelsall	Clerc	27.11.19	

Wedi diswyddo neu eu tymor wedi gorffen yn ystod y flwyddyn Ysgol 2021-22

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Colin Bell, 57 Trearddur Road, Trearddur Bay, Holyhead, LL65 2UE
Clerc y Llywodraethwyr: Mrs Carol Kelsall

Etholir rhieni-lywodraethwyr gan rieni disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Pan fo cyfnod rhiant fel llywodraethwr yn dod i ben, mae'r ALl yn trefnu i enwebiadau gael eu gwneud, ac yn trefnu pleidlais os oes angen. Mae gan rieni'r hawl i gael eu hail-ethol cyn belled â bod ganddynt blentyn ar gofrestr yr ysgol ar amser yr etholiad. Yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22, bu i un rhiant-lywodraethwr ddod i ddiwedd ei dymor, ac o ganlyniad etholwyd un rhiant-lywodraethwr i'r swydd.

2) **Cyfarfod Rhieni**

Mae hwn yn darparu cyfle i rieni holi Llywodraethwyr ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ysgol a sut maent wedi ymgymryd â'u dyletswyddau o amgylch rhedeg yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22. Bydd y cyfarfod rhieni blynyddol yn cael ei gynnal am **4:30pm ar 8/2/23 yn Ysgol Cybi** os oes o leiaf 30 o rieni disgyblion cofrestredig neu 10% o rieni yn gofyn am un. Byddai'r agenda fel a ganlyn:

i) Croeso gan Gadeirydd y Llywodraethwyr.
ii) Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.
iii) Ymatebion y Llywodraethwyr i gwestiynau ysgrifenedig a dderbynnir.
iv) Cynnig unrhyw ddatrysiadau i'r CLl eu hystyried yn eu cyfarfod nesaf.

Os dymunwch ofyn i gyfarfod cael ei gynnal, ysgrifennwch at y Pennaeth erbyn 25/1/23 fel y gellir gwneud trefniadau addas. Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig gan gynnwys enw llawn a chyfeiriad y rhiant i Gadeirydd y Llywodraethwyr (drwy'r ysgol) erbyn 25/1/23.

Gellir gofyn am gyfarfodydd ar amseroedd eraill yn y flwyddyn ar gais ac yn unol â gweithdrefnau a nodir gan Lywodraeth Cymru. Gall y Pennaeth roi cyngor ar y broses hon. Bydd copi llawn o'r adroddiad hwn gan gynnwys yr atodiadau'n cael ei ddarparu i'r holl lywodraethwyr, ac i unrhyw un sy'n gofyn am Adroddiad Llawn y Llywodraethwyr i Rieni. Bydd pob rhiant yn derbyn crynodeb o'r adroddiad (atodiadau: Dyraniad Cyllideb Ysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22).

Nid oedd unrhyw gynhigion gan rieni'r llynedd.

3) **Ethol Rhiant-lywodraethwyr**
Yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22, daeth rhiant-lywodraethwr Gareth Lewis i ddiwedd ei dymor ac o ganlyniad, enwebwyd ac etholwyd Darren Bruce i'r swydd.

4) Datganiad ariannol
Mae amlinelliad o'r gyllideb ysgol ynghlwm â'r fersiwn llawn o'r adroddiad hwn, ac mae ar gael i'r sawl sy'n derbyn y crynodeb ar gais. Mae'n cynnwys penawdau penodol sy'n dangos ein dyraniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyllidol bresennol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2022/23 wedi'i chydbwyso drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a gariwyd drosodd. Oherwydd y pandemig COVID-19, gohiriwyd y digwyddiadau ysgol blynyddol arferol, gan arwain at gyfleoedd yn cael eu colli i rieni ac/neu'r gymuned ehangach gyfrannu'n ariannol tuag at yr ysgol. Ni wnaeth yr ysgol unrhyw daliadau i aelodau'r Corff Llywodraethu am gostau yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22.

5) Canlyniadau
Nid yw bellach yn ofynnol i gyflwyno canlyniadau diwedd cyfnod allweddol ffurfiol nac i dderbyn data cymharol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021-22, adnabyddodd gweithdrefnau olrhain yr ysgol gynnydd da neu well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws pob ystod oedran. Bu i adnabyddiaeth perfformiad islaw'r disgwyliad ac yn enwedig mewn perthynas â chynnydd arwain at drafodaethau proffesiynol, cynllunio dal i fyny a chynllunio effeithiol ochr yn ochr â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

6) **Presenoldeb dros y flwyddyn academaidd flaenorol:**

2021-22				
	Tymor yr Hydref	**Tymor y Gwanwyn**	**Tymor yr Haf**	**Cyffredinol**
Blwyddyn 1-6	91.0%	90%	90.3%	90.4%
Absenoldebau Awdurdodedig	7.8%	7.1%	5.95%	6.95%
Absenoldebau Anawdurdodedig	1.4%	2.9%	3.27%	2.52%

Parhaodd y pandemig COVID-19 i gael effaith arwyddocaol ar ddata presenoldeb yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22. Yn benodol –

- Ansicrwydd cyffredinol ynghylch bygythiad y pandemig gan arwain at gynnydd mewn absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig.
- Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru a'r AALl ar ddefnyddio codau absenoldeb ysgol yn amrywio yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ymateb i lefel bygythiad a oedd yn newid yn barhaus. Arweiniodd hyn at ddarlun rhy gymhleth, ac arweiniodd at yr ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddogion lles y dir i nodi plant a theuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

7) **Cyrchfan ymadawyr ysgol:**
60 o ddisgyblion wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2022. Aeth 53 i Ysgol Uwchradd Caergybi, 6 i Ysgol Uwchradd Bodedern, ac 1 i Ysgol Gyfun Llangefni.

8) **Camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned:**

Er bod y cyfyngiadau a orfodwyd ar ysgolion oherwydd y pandemig COVID-19 yn llesteirio rhai o ymweliadau blynyddol arferol yr ysgol, roeddem yn gallu manteisio ar rai cyfleoedd yn ein hardal leol. Ymhlith yr ymweliadau roedd: Canolfan Ucheldre, Eglwys St Cybi, Parc Garreglwyd, Anglesey Conway Centre ac ymweliad Blwyddyn 6 ag Ysgol Uwchradd Caergybi. Bu i Gyngor Ysgol Eglwys yr ysgol, sy'n cynnwys disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a chynrychiolwyr o Eglwys St Cybi, barhau â'r gwaith o gefnogi elusennau lleol ac Apêl Uganda Rhyngwladol. Sefydlwyd 'Heddlu Bach' yr ysgol a gweithiodd yn effeithiol iawn ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Heddlu lleol mewn digwyddiadau lleol amrywiol yn rhannu gwybodaeth, cyngor ac yn hyrwyddo mentrau lleol pwysig. Parhaodd swyddog cyswllt ysgolion yr heddlu i weithio gyda'r ysgol yn ddigidol ac wyneb yn wyneb, gan gynnal sesiynau gyda disgyblion o flynyddoedd 2-6 yn trafod materion fel seiberddiogelwch, bwlio a chadw'n ddiogel yn y gymuned.

9) **Targedau presennol yr ysgol:**
Nodir isod y prif flaenoriaethau yn y Cynllun Gwella Ysgol presennol:

(i) Codi safonau Cymraeg ar draws yr ystod oedrannau.
(ii) Darparu cwricwlwm perthnasol i gyd-destun yr ysgol sy'n bodloni gofynion statudol Cwricwlwm I Gymru a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr addysgol i fedru ei gyflwyno a'i gynnal yn effeithiol.
(iii) Parhau i ddatblygu sgiliau arwain a rheoli pob athro/awes ac i gryfhau ymhellach strwythur arwain sy'n cefnogi'r safonau uchaf ac yn hyrwyddo annibyniaeth, arbenigedd ac atebolrwydd Timau Meysydd Dysgu a Phrofiad.
(iv) Parhau i ddatblygu isadeiledd ac arferion lles ysgol o ansawdd uchel sy'n llwyddo i gynnal a chefnogi disgyblion, staff dysgu a chymuned ehangach yr ysgol.
(v) Cyflwyno darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol rhagorol sy'n bodloni'r gofynion statudol, yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl ac yn datblygu i fod yn wasanaeth 'system arweiniol' sy'n codi safonau tu hwnt i ffiniau'r ysgol.

10) **Chwaraeon:**
Parhaodd y cyfyngiadau COVID-19 i effeithio ar y cyfleoedd a ddarperir i blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu gystadlaethau chwaraeon all-gwricwlaidd yn ysgol 2021-22. Fodd bynnag, ymysg y cyfleoedd a ddarparwyd oedd - Nofio, Dawns, Hoci, Rygbi Tag, Pêl-fasged, Pêl-droed, Rhedeg Trawsgwlad, Pêl-rwyd, Sboncen.

Mae'r ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar agweddau o iechyd a lles o fewn gwaith thematig dosbarth ac yn ymgorffori ardaloedd tu allan i mewn i brofiadau dysgu dyddiol.

11) **Camau gweithredu i adolygu polisïau ysgol:**
Adolygir pob polisi ysgol un ai'n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd ac maent ar gael ar wefan yr ysgol.

12) **Dyddiadau tymor ar gyfer y flwyddyn gyfredol:**

Diwrnod cyntaf tymor yr hydref	01/09/22	Diwrnod olaf cyn y Pasg	31/03/23
Diwrnod olaf cyn hanner tymor	28/10/22	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Pasg	17/04/23
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tym	07/11/22	Gŵyl y Banc	01/05/23
Diwrnod olaf cyn y Nadolig	23/12/22	Diwrnod olaf cyn yr hanner tymor	26/05/23
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Nadolig	09/01/23	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor	05/06/23
Diwrnod olaf cyn hanner tymor	17/02/23	Diwrnod olaf yn yr ysgol cyn gwyliau'r ha	21/07/23
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor	27/02/23		

13) **Diweddariadau Prosbectws Ysgol:**
Mae copïau o brosbectws yr ysgol ar gael i bawb ar wefan yr ysgol. Mae copïau caled hefyd ar gael ar gais. Gwnaethpwyd y diwygiadau canlynol i'r fersiwn blaenorol -

- Manylion y gweithgareddau all-gwricwlaidd
- Manylion trefniadau dosbarth
- Enwau a chyfrifoldebau staff dysgu ysgolion
- 'Cwricwlwm i Gymru' fel gofyniad statudol newydd

14) **Trefniadau Cwricwlaidd:**
Yn ystod y flwyddyn addysgol 2021-22, parhaodd yr ysgol â'i gweithrediad o'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion 3-7 oed, a dilynodd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer disgyblion 7-11 oed ym mlynyddoedd 3-6. Yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, cymerwyd camau i ymgorffori rhai agweddau o Cwricwlwm i Gymru yn raddol (yn statudol o fis Medi 2022), gan gynnwys mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain. Yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22, addysgwyd disgyblion mewn 14 dosbarth llawn amser, 2 ddosbarth meithrin rhan amser a dau ddosbarth anogaeth – un ar gyfer pob cyfnod allweddol.

15**) Manylion Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:**
Mae gan lawer o blant anghenion ychwanegol o fewn maes o'r cwricwlwm neu anghenion meddygol ar ryw adeg yn eu gyrfa yn yr ysgol. Weithiau rydym yn ymwybodol o hyn yn gynnar yn ystod cyfnod disgybl gyda ni neu hyd yn oed cyn iddynt ymuno, ac ar adegau eraill codir pryder yn ystod eu haddysg. Gall rhai anghenion fod yn fwy difrifol nag eraill. Yn Ysgol Cybi, caiff anghenion ychwanegol plant eu nodi fel arfer gan yr athro dosbarth neu gydweithiwr drwy arsylwi, profi, asesu ac ymgynghori â rhieni, cofnodion ysgol blaenorol ac asiantaethau iechyd. Ysgrifennwyd ein Polisi Anghenion Ychwanegol gan ystyried y Cod Ymarfer ADY Cenedlaethol. Ymgynghorir â rhieni a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r gwasanaethau cymorth, gan gynnwys adolygiad blynyddol statudol. Cynllunnir darpariaeth ADY yn ofalus i sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion disgyblion yn effeithiol a bod manylion yn cael eu cofnodi a'u monitro mewn 'Cynlluniau Datblygu Unigol'. Ymysg y ddarpariaeth amrywiol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22 oedd – WellComm Iaith a Lleferydd, Dyddiadur Dyddiol Cymraeg/Saesneg, Addysgu Manwl Rhifedd, Sesiynau PATHS (Cymorth Emosiynol) yn ogystal â darparu sesiynau 'anogaeth' wedi'u targedu o fewn ein dosbarthiadau anogaeth.

16) **Iaith:**
Daw'r rhan fwyaf o'n disgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith lafar. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dilyn polisi iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol drwy asesu plant yn erbyn meini prawf iaith gyntaf fel eu bod yn datblygu i fod yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith. Rydym yn cael ein hystyried yn ysgol Gymraeg. Mae'r ysgol yn dilyn polisi trochi Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac felly dyma'r brif iaith a siaredir yn yr ystafell ddosbarth, gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 2. Ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol, gan gynnwys ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol asesir cynnydd a safonau plant yn y Gymraeg a'r Saesneg a'u holrhain. Anogir hwyrddyfodiaid sy'n ymuno â CA2 o ysgol arall lle nad yw'r Gymraeg wedi'i chyflwyno'r flaenorol i dreulio tymor yn uned iaith Gymraeg y sir sydd wedi'i lleoli ar ein safle ysgol, i ymgymryd â chwrs trochi'r Gymraeg.

17) **Lles:**
Mae lles wedi bod yn flaenoriaeth i'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddog Lles y sir i gefnogi disgyblion a theuluoedd dan amgylchiadau heriol. Er bod rhai cyfyngiadau'n rhwystr i ddarpariaeth yr ysgol, cafodd cyfleoedd i gefnogi a datblygu pob agwedd o les disgyblion eu blaenoriaethu ac felly eu parhau, e.e., 'Sesiynau CELS' sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, 'SHEP' sy'n darparu darpariaeth gwyliau'r haf gan gynnwys prydau iach, 'Darpariaeth Cerddoriaeth William Mathias' sy'n datblygu sgiliau pwysig a chefnogi lles meddyliol. Cyflwynir addysg iechyd hefyd mewn gwersi ledled yr ysgol. Mae'r pynciau dan sylw'n cynnwys pwysigrwydd cadw'n heini ac yn actif yn ogystal â bwyta ac yfed deiet iach a chytbwys. Mae gan yr ysgol bolisi o ffrwythau yn unig fel byrbrydau amser chwarae. Rydym yn tyfu ffrwythau a llysiau ac fe'u defnyddir yn aml mewn prosiectau dosbarth. Mae'r contractwyr cegin wedi dylunio eu bwydlen yn benodol i gwrdd â gofynion Blas am Oes Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22, codwyd y rheoliadau a oedd yn cyfyngu ar ddefnydd o oeryddion dŵr, a chaiff plant eu hannog ar hyn o bryd i ddod â'u poteli dŵr eu hunain o adref a chadw'n hydradol drwy'r diwrnod ysgol.

Mae gan bob adain o'r ysgol gyfleusterau toiled i'w defnyddio gan y disgyblion. Darperir cyfleusterau cymysg yn adran y babanod, a chyfleusterau ar wahân ar gyfer plant hŷn. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol gan staff hyfforddedig.

Derbynnir disgyblion ag anableddau i'r ysgol yn unol â pholisi mynediad yr ALl. Gwahoddir rhai plant oed meithrin i fynychu uned cyn-ysgol ABC ar gyfer asesiad arbenigol cyn dechrau mewn addysg llawn amser. Cynhelir asesiadau risg a chynlluniau hygyrchedd er budd plant sydd â phroblemau symudedd.

CYLLIDEB 2022/23 YSGOL CYBI BUDGET 2022/23		CYLLIDEB 22/23 OUTTURN BUDGET 22/23	ADDASIADAU ADJUSTMENT	CYLLIDEB TERF 22/23 OUTTURN BUDGET 22/23
EMPLOYEES=	**GWEITHWYR=**	£	£	£
SALARY AND WAGES-	CYFLOGAU-			
TEACHERS	ATHRAWON	1,089,950		1,089,950
SUPPLY TEACHERS-	ATHRAWON LLANW-			
INSURANCE	PREMIWM	53,210		53,210
OTHER SUPPLY	LLANW ARALL	0		0
SPECIAL NEEDS	ANGHENION ARBENNIG	40,780	-40,780	0
SUPPORT STAFF-	STAFF ATEGOL-			
SUPPORT STAFF-LUNCHTIME	STAFF ATEGOL-AMSER CINIO	14,080	2000	16,080
TEACHING ASSISTANTS	CYMHORTHYDDION ADDYSGU	117,300		117,300
CLERICAL SUPPORT	CYMORTH GWEINYDDOL	23,280		23,280
CARETAKER	GOFALWR	0		0
INTEGRATION STAFF	STAFF INTEGREIDDIO	426,600		426,600
OTHER COSTS-	COSTAU ERAILL-			
ADVERTISING	HYSBYSEBU	1,310		1,310
PREMISES=	**ADEILADAU=**			
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Local Mgt)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Rheolaeth Leol)	15,600		15,600
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Fair Funding)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Ariannu Teg)	20,620		20,620
ENERGY COSTS-	COSTAU YNNI-			0
ELECTRICITY	TRYDAN	14,640		14,640
GAS / OIL	NWY / OLEW	11,970		11,970
WATER	DWR	7,050		7,050
CLEANING CONTRACT	CYTUNDEB GLANHAU	56,720		56,720
GROUND MAINTENANCE	CYNNAL TIR	9,920		9,920
CLEANING MATERIALS	DEFNYDDIAU GLANHAU	1,190	2000	3,190
FIRE FIGHTING EQUIPMENT	OFFER YMLADD TAN	390		390
RATES	TRETHI	66,340		66,340
SUPPLIES AND SERVICES=	**CYFLENWADAU A GWASANAETHAU=**			
CAPITATION	LWFANS Y PEN	10,530		10,530
FURNITURE	DODREFN	0		0
POSTAGES	POST	330		330
TELEPHONES	FFON	1,380		1,380

BROADBAND	BAND LLYDAN	2,120		2,120
ICT SUPPORT	CEFNOGAETH TGCh	7,360		7,360
SWIMMING POOLS	PYLLAU NOFIO	5,950		5,950
LIBRARY	LLYFRGELL	4,250	-4,250	0
ARCHIVES	ARCHIFAU	750	-750	0
MUSIC	CERDD	6,170	-6,170	0
ITEMS FOR FURTHER DELEGATION:-	**EITEMAU AR GYFER DATGANOLI PELLACH:-**			
PERSONNEL AND PAYROLL	PERSONEL A CHYFLOGAU	13,290		13,290
FINANCIAL ADVICE	CYNGOR CYLLIDOL	2,780		2,780
PUPIL INFORMATION	GWYBODAETH DISGYBLION	3,110		3,110
ADMINISTRATIVE (TRANSLATION)	GWEINYDDOL (CYFIEITHU)	710		710
ADMINISTRATIVE (SICKNESS)	GWEINYDDOL (SALWCH)	1,250		1,250
ORDERS, PAYMENTS, INCOME	ARCHEBION, TALIADAU, INCWM	5,260		5,260
ADMINISTER REPAIR & MTCE OF BUILDINGS	GWEINYDDU CYNNAL A CHADW ADEILADAU	4,530		4,530
INTEGRATION - CONTINGENCY	INTEGREIDDIO - CRONFA WRTH GEFN	42,910		42,910
SCHOOL MEALS	CINIO YSGOL	98,120		98,120
TOTAL EXPENDITURE	**CYFANSWM GWARIANT**	**2,181,750**	**-47,950**	**2,133,800**
INCOME	INCWM			
TOTAL NET BUDGET	**CYFANSWM CYLLIDEB NET**	**2,181,750**	**-47,950**	**2,133,800**
ALLOCATION (not including safety net)	DYRANIAD (heb gynnwys rhwyd diogelu)	1,913,890		1,913,890
LONG TERM DIFFERENCE	**GWAHANIAETH TYMOR HIR**	**-267,860**	**47,950**	**-219,910**
SAFETY NET (+ / -)	RHWYD DIOGELU (+ / -)	0		0
FOUNDATION PHASE GRANT	GRANT CYFNOD SYLFAEN	107,840		107,840
ADDITIONAL ALN HOURS	ORIAU YCH ADY	**27,600**		27,600
ADD TO RESERVES	YCHWANEGU I ARIAN WRTH GEFN			0
USE OF BALANCES	DEFNYDDIO BALANSAU		84,470	84,470
DIFFERENCE	**GWAHANIAETH**	**-132,420**	**132,420**	**0**

0